



Cydweithio rhyngwladol yn esgor ar ganlyniadau cadarnhaol



Waffers yn cael eu 'trin a thrafod' yn ystafell lân IQE, yn ystod profion ôl-gynhyrchu

Mae IQE, sydd â'i bencadlys yng Nghaerdydd, yn fusnes byd eang sy'n gweithgynhyrchu ac yn cyflenwi cynnyrch waffer i'r diwydiant lled-ddargludyddion. Mae ei gynhyrchion yn galluogi ystod o gymwysiadau uwch-dechnoleg, gan gynnwys dulliau cyfathrebu diwifr ac optegol (ffonau clyfar, a'r rhyngwyd), synwryddion ffotonig ac offer ffotofoltaidd (paneli solar).

Gwnaeth IQE gais llwyddiannus am Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth estynedig er mwyn datblygu arbenigedd a phrosesau mewnol fyddai'n profi a gwella ansawdd un o'i nwyddau. Roedd y profiad yn eithriadol o gadarnhaol ac yn help i adnabod gwelliannau mewn rhai prosesau gweithgynhyrchu allweddol.

Caiff y Cynllun Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth ei arwain gan **Innovate UK** a'i gyllido gan 13 sefydliad llywodraethol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae'n galluogi busnesau i arloesi a thyfu drwy eu cysylltu â phrifysgol a pherson graddedig i weithio ar brosiect penodol am hyd at 36 mis.

Mae'r Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth estynedig yn unigryw i Gymru ac yn cynnwys elfen ryngwladol; yn helpu busnesau i ddod yn fwy cystadleuol drwy adnabod gwybodaeth a thechnoleg unigryw o dramor a manteisio arnynt. Cyflwynodd y Bartneriaeth Trosglwyddo

Y Busnes Cyflawniadau allweddol:

- Datblygu gweithdrefnau gweithgynhyrchu a phrofi gwell
- Cyfathrebu'n well â chleientiaid
- Ymestyn y cyd-fenter bresennol gyda Phrifysgol Caerdydd

Gwybodaeth estynedig fanteision tymor hir, nid yn unig i'r cwmni ond hefyd i'r ffisegwr graddedig o'r Almaen, Alex Pooth, a Phrifysgol Bryste. Dair blynedd yn ddiweddarach, mae'r tri yn dal i elwa ar fanteision y cydweithrediad.

Y Busnes

Roedd IQE yn awyddus i gael mynediad i ddadansoddiad blaengar o'i ddeunydd 'gallium nitride', sy'n cael ei ddefnyddio mewn cymwysiadau rheoli ynni.

Gweithiodd y cwmni mewn partneriaeth ag adran ffiseg Prifysgol Bryste a recriwtio Alex Pooth ar leoliad am dair blynedd er mwyn gwella ei alluoedd o ran nodweddion deunyddiau, yn enwedig yn achos technegau mesur nad ydynt ar gael yn fewnol.

Esgorodd y prosiect ar ddatblygiad gweithdrefnau profi newydd, adnabod offer newydd a gwell gyfathrebu â chleientiaid. Yn ogystal â hyn, ychwanegodd allu at fenter bresennol ar y cyd rhwng IQE a Phrifysgol Caerdydd allai olygu manteision pellgyrhaeddol i economi Cymru.

Dair Blynedd yn Ddiweddarach...

"Mae ein prosesau gweithgynhyrchu wedi gwella a byddant yn parhau i wneud hynny, diolch i'r ymchwil a'r arbenigedd yr ydym wedi eu derbyn. Mae gennym ddealltwriaeth estynedig o ofynion allweddol a gweithdrefnau profi newydd. Helpodd ymchwil, adroddiadau a chyflwyniadau Alex ni i gyflwyno gwerth ychwanegol i'r gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig i'n cwsmeriaid.

"Roedd yr elfen estynedig, yn bennaf y cyfle i gydweithio ag arbenigwyr ledled y byd a dysgu ganddynt, yn amhrisiadwy. Rydym yn falch o fod yn dysgu ac yn dod â'r wybodaeth honnon yn ôl i Gymru.

"Trwy'r Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth hon, fe wnaethom adeiladu ar ein perthynas bresennol hefyd gyda Phrifysgol Caerdydd, sy'n anelu at droi ymchwil lled-ddargludyddion cyfansawdd yn gynnyrch a gwasanaethau sydd o fantais i Gymru a thu hwnt.

"Tua dwy flynedd ar ôl i Alex ymuno â ni, dechreuon ni Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth arall â Phrifysgol Caerdydd, oedd yn fwy cysylltiedig â'n llinell cynnyrch prif ffrwd. Mae hynny'n brawf o faint yr ydym yn gwerthfawrogi'r hyn mae'r profiad wedi ei roi i'n busnes ni."

Dr Iwan Davies, cyfarwyddwr technoleg grŵp yn IQE, a Dr Trevor Martin, cyfarwyddwr strategaeth gan byd eang, IQE

Y Partner Academaidd

Gweithiodd Ysgol Ffiseg Prifysgol Bryste gyda IQE i sicrhau cyllido Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth estynedig a dod o hyd i bartner oedd yn briodol gymwys allai ddechrau ar y gwaith yn syth.

Aeth Alex a'r tîm ym Mryste i'r afael hefyd â Phrifysgol Technoleg Chalmers yn Sweden, sy'n un o gyfleusterau ymchwil technoleg fwyaf

Y Partner Academaidd Cyflawniadau allweddol:

- Datblygu cysylltiadau ymchwil newydd a chysylltiadau newydd â diwydiant
- Ymgysylltu â throsglwyddo gwybodaeth yn rheolaidd
- Profiad gwell i fyfyrwr

Y Partner Cyflawniadau allweddol:

- Cwblhau rhaglen academaidd ysgogol
- Ennill profiad gwerthfawr o ddiwydiant
- Cyhoeddi papurau ymchwil a phapurau i gynadleddau

blaenllaw Ewrop, a mynychu cynadleddau yn yr Unol Daleithiau lle buon nhw'n rhannu profiad ac astudiaethau.

Rhoddodd y prosiect wybodaeth am bynciau astudio, ysbrydolodd bapurau ymchwil a gyfoethogodd ddealltwriaeth y gyfadran, a rhoddodd fewnwelediad i fyfyrwyr eraill i'r diwydiant technoleg.

Dair Blynedd yn Ddiweddarach...

"Roedd hwn yn gyfle gwych i gael gafael ar wybodaeth a'i rhannu gyda chwmni cyffrous a byddwn heb amheuaeth yn gweithio gyda IQE eto. Mae'n sbarduno nid yn unig y partner ond hefyd y myfyrwyr eraill y maen nhw'n integreiddio â nhw, ac yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i sut mae'r hyn y maen nhw'n ei astudio o fudd i gwmni gwaith.

"Os ydych ar Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth, rydych yn ymwneud lawer yn fwy â'r brifysgol a'r cwmni, gan symud yn gyson rhwng y ddau ac yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei drosglwyddo'n gyson. Does dim amheuaeth fod pawb yn elwa."

Yr Athro Michael Uren a'r Athro Martin Kuball, Ysgol Ffiseg Prifysgol Bryste

Y Partner

Pan glywodd y myfyriwr ffiseg graddedig, Alex Pooth, am y cyfle Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth estynedig yn IQE yn ne Cymru, ni feddylodd ddwywaith cyn gwneud cais. Roedd y gallu i gyfuno prifysgol, a gweithio tuag at ddoethuriaeth, gyda phrofiad diwydiannol mewn gwlad oedd yn siarad Saesneg yn apelio'n fawr. Sicrhaodd y brifysgol ei fod wedi ei integreiddio'n llawn â grŵp o fyfyrwyr, felly nid yn unig y gwnaeth ei waith caled a'i ymchwil hybu arbenigedd a phrosesau IQE, llwyddodd hefyd i wella ei sgiliau Saesneg, gweithio tuag at ddoethuriaeth a gwneud ffrindiau oes.

Dair Blynedd yn Ddiweddarach...

"Ges i'r gorau o ddau fyd, bod mewn prifysgol ac ehangu fy ngyrfa wyddonol a chael profiad gwaith mewn cwmni byd eang. Aeddfedais fel gwyddonydd heb amheuaeth – ymddangosodd dau gyhoeddiad gennyf mewn cyfnodolyn a gwnes nifer o gyfraniadau i gynadleddau yn ystod y Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth – ac fe gefais fewnwelediad i'r gwahanol safbwyntiau a blaenoriaethau mae diwydiant yn eu cyflwyno.

"Roeddwn yn teimlo'n rhan o'r tîm yn IQE. Erbyn hyn, dwi'n chwilio am waith yn yr Almaen ac yn teimlo'n ffodus fod gennyf brofiad o weithio gyda chwmni mewn amgylchfyd rhyngwladol, sy'n siarad Saesneg."

Alex Pooth, myfyriwr ffiseg graddedig a chyn bartner y Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth yn IQE